**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022 (yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Llesiant |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |

| | | |
|---|---|---|
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Kirrin Davidson | (KD) | Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| Mariana Dyakova | (MD) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Sefydliad Iechyd y Byd (ar gyfer eitem 4) |
| Angela Fisher | (AF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Sally Holland | (SH) | Comisiynydd Plant Cymru (ar gyfer eitem 3) |
| Nathan Jones | (NJ) | Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Undeb Llafur Ochr y Staff |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol) |
| | | |

*Dechreuodd y cyfarfod am 11:30*

**PHW 1/2022.03.31 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi ar-lein. Estynnodd groeso arbennig i'r Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, Kirrin Davidson o Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Claire Sullivan a oedd yn bresennol fel cynrychiolydd Undeb Llafur.

Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol dros: bennu cyfeiriad strategol; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn gallu dod i'r gwaith a bod ar eu gorau, heb ofni gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath. Roedd y Bwrdd hefyd am i staff deimlo'n ddiogel wrth godi pryderon, boed ar eu rhan eu hunain neu oherwydd rhywbeth yr oeddent wedi bod yn dyst iddo. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru Weithdrefn Codi Pryder y gellir dod o hyd iddo ar fewnrwyd y staff.

Dywedodd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn unol â chod ymddygiad ffurfiol y Bwrdd, ac mae manylion am y cod ar gael ar y wefan. Roedd yn nodi y dylid darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, er mwyn gwneud y gorau o'r amser sydd ar gael i drafod ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn gweithredu Gwerthoedd Iechyd

Cyhoeddus Cymru: Cydweithio, Gydag Ymddiriedaeth a Pharch, i Wneud Gwahaniaeth.

Ymddiheurodd Diane Crone am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**PHW 2/2022.03.31 Datgan Buddiannau**

Ni wnaeth aelodau'r bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PHW 3/2022.03.31 Partneriaeth Strategol - Comisiynydd Plant Cymru**

Yna cyflwynodd JW yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a Kirrin Davidson o Swyddfa’r Comisiynydd. Roedd Sally yn dod i ddiwedd cyfnod saith mlynedd fel Comisiynydd Plant; roedd y Bwrdd wrth eu bodd ei bod hi wedi gallu ymuno â’r cyfarfod, i roi sylwadau ar y bartneriaeth strategol rhwng ei Swyddfa ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac i nodi materion parhaus.

Diolchodd SH i'r Bwrdd am y croeso cynnes, pwysleisiodd y cydweithio adeiladol mewn partneriaeth rhwng ei Swyddfa ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a mynegodd ei gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth yr oedd JW a TC wedi'i roi drwy gydol ei chyfnod yn y swydd. Crynhodd SH ei holl ymagwedd fel un o gynnal Hawliau Plant a thynnodd sylw at y canlynol:

- Yr heriau penodol a wynebwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19, ffocws Iechyd Cyhoeddus Cymru ar anghenion plant drwyddo draw a’i ymrwymiad cadarn i adnabod a diwallu anghenion gwasanaethau plant. Roedd y rhain yn amrywio o ofynion imiwneiddio a brechu arferol, iechyd a lles cyffredinol, effaith y pandemig ar iechyd meddwl a gwydnwch, goblygiadau tarfu ar addysg a’r angen i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc.
- Hawliau dynol plant a chyflawni yn erbyn y pum egwyddor sy’n llunio’r fframwaith sefydliadol cyfunol i grwpio'r 42 hawl a nodwyd. Nododd SH mai'r pum egwyddor oedd: gwreiddio; cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu; grymuso; cyfranogi; ac atebolrwydd. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymhwyso’r egwyddorion hyn mewn ffyrdd arloesol i ymgysylltu’n effeithiol â phlant a phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys y rhaglen Llysgenhadon Ifanc a oedd yn annog ac yn cefnogi pobl ifanc i ehangu eu gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ac i graffu ar y rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Roedd SH o'r farn bod Iechyd Cyhoeddus Cymru’n esiampl dda yn y maes hwn.
- Gan adeiladu ar lwyddiant cydweithio cadarn mewn partneriaeth hyd yma, cynigiodd SH ymgysylltu pellach ar y cyd mewn perthynas â: dysgu o'r pandemig ynglŷn â sut i gynnal cysylltiadau effeithiol yn ystod argyfwng; dod yn fwyfwy ystwyth wrth ddarparu gwybodaeth sy'n gyfeillgar i blant a phobl ifanc; sicrhau mecanwaith llywodraethu effeithiol ar gyfer yr holl ymgysylltu â Llysgenhadon Ifanc; teilwra pob cyngor iechyd cyhoeddus generig i adlewyrchu gofynion penodol plant. Cyfeiriodd SH at ofal preswyl a'r rhagdybiaeth bod gwybodaeth berthnasol ynglŷn â hyn yn ymwneud â phobl hŷn; roedd, fodd bynnag, hefyd yn berthnasol i blant a phobl ifanc.

Diolchodd JW i SH am ei chyflwyniad ysbrydoledig a'i geiriau caredig. Yna gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

- Croesawodd TC y cyflwyniad llawn gwybodaeth a'r adborth cadarnhaol. Diolchodd i SH am ei hagwedd adeiladol a chadarnhaol drwy gydol ei hamser yn gweithio mewn partneriaeth strategol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Gofynnodd DE a oedd y pandemig wedi arwain at bobl ifanc yn newid eu barn am faterion iechyd cyhoeddus. Nid oedd SH yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ffurfiol neu gyhoeddedig ond yn anecdotaidd, o sgyrsiau gyda llawer o bobl ifanc, roedd yn synhwyro cynnydd yn eu hymwybyddiaeth o oblygiadau cyfyngiadau ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd JW SH ar ei chyfnod fel Comisiynydd Plant; roedd wedi cyflawni'i swydd yn rhagorol ac wedi bod yn lladmerydd di-ofn dros hawliau plant. Dymunodd JW yn dda i SH ar gyfer y dyfodol a chadarnhaodd y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau â'r bartneriaeth hirsefydlog ac adeiladol â'i holynydd.

**PHW 4/2022.03.31 Statws Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd**

Croesawodd JW MD i'r cyfarfod a gwahoddodd hi a MB i gyflwyno'r newyddion cyffrous i'r Bwrdd mewn perthynas â Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd.

Dywedodd MB fod statws Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn arwydd o weithio mewn partneriaeth ar lefel uwch rhwng sefydliad a Sefydliad Iechyd y Byd, yn seiliedig ar nodau ac amcanion ar y cyd ac ymgysylltu ar lefel ryngwladol. Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru yn un enghraifft o fanteision cydweithio ac ymgysylltu yn sgil statws Canolfan Gydweithredol. Roedd statws Canolfan Gydweithredol a roddwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru, ym mis Mawrth 2018, yn unigryw ymhlith yr 800 o Ganolfannau Cydweithredol yn fyd-eang, gyda'i ffocws ar fuddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn wir Gymru gyfan, bellach yn ddylanwadwr byd-eang ac yn safle arloesi byw.

Dywedodd MB wrth y Bwrdd fod Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i hailddynodi gan Sefydliad Iechyd y Byd am bedair blynedd arall, tan 2026, gan adlewyrchu llwyddiant y Ganolfan Gydweithredol yn ystod y pedair blynedd gyntaf.

Soniodd MD am y cyflawniadau carreg filltir dros y pedair blynedd diwethaf, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cael ei hyrwyddo ar draws Ewrop ac yn fyd-eang. Yn ogystal â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol ar gyfer Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, cyfeiriodd MD hefyd at Fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) a'r ystod o offer a chanllawiau a ddatblygwyd dros y pedair blynedd diwethaf sy'n berthnasol mewn nifer o gyd-

destunau, gan gynnwys cadernid cymunedol. Byddai sesiwn bwrpasol ar 21 Ebrill, 2022, yn rhoi cyfle i'r Bwrdd ystyried y goblygiadau a'r cyfleoedd yn fanylach.

Darllenodd TC neges longyfarch gan Dr Chris Brown, Pennaeth Swyddfa Sefydliad Iechyd y Byd yn Fenis. Dyma'r neges:

*'Dear Colleagues and Friends of the PHW Public board*

*I write from Venice with my heartfelt congratulation on the renewal of the WHO Collaborating Centre on Investment for Health and Wellbeing, PH Wales. Never before in my experience has the redesignation of a WHO CC been achieved so quickly or smoothly. This is recognition of the high quality and impactful work of the Collaborating Centre and its excellent team and management.*

*The saying that "if you want to go far, go together" certainly applies to our collaboration already together we have achieved many things with an impact in many WHO Europe Countries. I look forward to this continued successful collaboration and wish you all a productive meeting.*

*Chris (Head, The WHO European Office for Investment for Health and Development)'.*

Ymunodd holl gyfarwyddwyr y Bwrdd â JW a TC i longyfarch MB, MD a thîm Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar eu gwaith arloesol a arweiniodd at yr ailddynodi haeddiannol hwn. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru well enw da yn rhyngwladol o ganlyniad i statws Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ac roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at ddysgu mwy yn nigwyddiad mis Ebrill.

**Nododd** y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a **chymerodd sicrwydd** o'r papur a'r trafodaethau.

**PHW 5/2022.03.31 Agenda Cydsynio**

Mae'r rhan o'r agenda sy'n ymwneud â chydsynio yn darparu ar gyfer ystyried busnes fel eitem sengl. Gall Aelodau ofyn am symud eitemau i'r brif agenda, pe bai angen eu trafod ymhellach. Mae hyn yn unol ag Adran 7.5.9 o'r **Rheolau Sefydlog**…*'Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei drin mewn modd sy'n galluogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau effeithiol ar y materion sydd ger ei fron. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfraniadau aelodau'r Bwrdd yn amserol ac yn berthnasol ac yn symud busnes ymlaen ar gyflymder priodol….Y Cadeirydd sydd â'r gair olaf ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnal busnes y Bwrdd'.*

**PHW 5.1/2022.03.31 Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru - ymestyn y cytundeb lletya hyd at fis Mawrth 2023**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd ymestyn y cytundeb lletya er mwyn hwyluso lletya Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru am flwyddyn arall hyd at 31 Mawrth 2023.

**PHW 5.2/2022.03.31 Y Sêl Gyffredin**

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **Nodi** gosod y Sêl Gyffredin;
- **Cymryd sicrwydd** bod y cam gweithredu yn cydymffurfio ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog (oherwydd cyfyngiadau o ran y dyddiadur, arwyddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y ddogfen pan oeddent mewn lleoliadau gwahanol, gan arwain at amrywiad bychan o ran arfer);
- **Cadarnhau** gosod y Sêl Gyffredin er mwyn cymeradwyo prydles newydd ar gyfer Tŷ Rhos, 55 Stryd Rhydychen, Aberpennar, Rhondda Cynon Taf.

**PHW 5.3/2022.03.31 Adroddiad y Cadeirydd**

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad ar sesiwn breifat y Bwrdd ar 27 Ionawr 2022.

**PHW 5.4/2022.03.31 Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (27 Ionawr 2022)**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod; **nododd** y Bwrdd hefyd y Cofnod o Gamau Gweithredu.

**PHW 6/2022.03.31 Eitemau i'w Cymeradwyo**

**PHW 6.1/2022.03.31 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2022-25**

Cyflwynodd JW yr eitem hon gan nodi’r ffaith mai hwn oedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig llawn cyntaf ers 2020 ac roedd hynny’n arwydd calonogol bod y sefydliad mewn sefyllfa i ailddechrau gweithio ar draws ehangder ei agenda. Roedd y CTCI yn arwyddocaol ynddo’i hun ac fel dylanwadwr i gefnogi’r gwaith o adnewyddu’r Strategaeth Hirdymor a oedd i fod i redeg drwy gydol 2022/23. Gofynnodd i HG roi'r cefndir ac amlinellu'r strwythur arfaethedig ar gyfer y drafodaeth ar y cynnwys.

Nododd HG gyflwyniad y CTCI i’w gymeradwyo ochr yn ochr â’r Cynllun Ariannol a’r Fframwaith Rheoli Cyllidebau ar gyfer 2022/23. Roedd y dogfennau hyn yn ffrwyth misoedd lawer o waith ar lefel Tîm Gweithredol. Roedd y CTCI yn nodi cynllun tair blynedd cytbwys, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ac yn disgrifio’r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i gyflawni yn erbyn y pum thema strategol a nodwyd ar gyfer 2022/23. Mae rhagor o fanylion am y sbardunau sy'n sail i'r themâu i'w gweld yn y papur eglurhaol. Byddai Blwyddyn Un CTCI 2022/25 yn flwyddyn bontio, wrth i’r sefydliad symud ymlaen o ddwy flynedd yn canolbwyntio ar ymateb i’r pandemig.

Yn dilyn y cyd-destun strategol cyffredinol, roedd y CTCI yn canolbwyntio ar nifer fach o themâu strategol; roedd Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi darparu sylwadau yn erbyn drafft cynharach a chynigiodd HG adolygu pob thema, gan nodi cynnwys pwyntiau cynharach lle'r oedd hynny'n berthnasol a phennu'r rhai yr oedd rheswm dros eu cynnwys yn y fersiwn derfynol, gan gymryd i ystyriaeth y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno’r cynllun. Dechreuodd HG drwy ofyn i TC wneud rhai sylwadau cyffredinol.

Diolchodd TC i HG am ei rôl arweinyddiaeth allweddol wrth lywio'r sefydliad drwy broses datblygu’r CTCI. Nododd ehangder y Cynllun, yn unol â’r bwriad strategol i ail-gydbwyso ffocws y sefydliad, ar ôl dwy flynedd yn canolbwyntio ar ymateb i’r pandemig. Ategodd natur ddeinamig y CTCI ar sail tair blynedd dreigl; byddai hyn yn datblygu ac yn esblygu wrth i'r sefydliad symud drwy’r camau. Byddai’r ystwythder sefydliadol a arddangoswyd yn ystod y pandemig yn amhrisiadwy wrth ddatblygu dull cynaliadwy a strategol ar draws yr holl swyddogaethau. Eglurodd TC hefyd y ffordd yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru’n cyflawni ei rôl fel Sefydliad Cenedlaethol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys darparu data ac arweinyddiaeth yn seiliedig ar wyddoniaeth, arbenigedd, cydgysylltu a chyngor ynghyd â darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus allweddol yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau mesuradwy o ran iechyd y boblogaeth. Roedd y CTCI yn adlewyrchu rôl arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio â phartneriaid i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys ar lefel Cymru gyfan. Roedd Diogelu Iechyd yn enghraifft allweddol.

Wrth symud i ystyried y themâu strategol, cydnabu HG y byddai angen cydweithio ar lefel system i ailddechrau gwaith datblygu nifer fach o ddulliau mesur canlyniadau; byddai hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2022/23.

Thema Strategol 1: Galluogi gwell iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy fesurau ataliol a chynaliadwy

Nododd MB natur drawsbynciol sicrhau iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau; roedd y CTCI yn crynhoi hyn. Yn ogystal â chyfrifoldebau arweiniol Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd y testun yn cydnabod rôl y sefydliad o ran darparu cyngor ac eiriolaeth, a dylanwadu ar a chefnogi gwaith eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd rôl Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn ganolog yn hyn o beth.

Tynnodd SA sylw at y crynodeb defnyddiol o'r thema strategol hon ar Dudalen 17 o'r CTCI; myfyriodd ar y cynllunio a’r gwaith sylweddol a oedd yn sail i’w ddatblygiad, gan wneud y mwyaf o asedau sefydliadol a gan archwilio cyfleoedd i gydweithio. Roedd gwyddor ymddygiad yn ganolog i ysgogi arloesedd, wedi’i llywio gan y gwersi a ddysgwyd o Covid-19 ac roedd y CTCI yn nodi pwysigrwydd hyn.

Thema Strategol 2: Darparu gwasanaethau rhagorol ar gyfer rhaglenni sgrinio'r boblogaeth, diogelu iechyd a heintiau

Nododd MK fod darparu gwasanaethau ar gyfer sgrinio'r boblogaeth, diogelu iechyd a heintiau yn ffocws allweddol i Iechyd Cyhoeddus Cymru, o ystyried ei effaith uniongyrchol ar iechyd pobl Cymru. Mae dros 50% o weithlu'r sefydliad yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau hyn. Roedd y thema strategol hon yn cyfeirio'n helaeth at waith Don Berwick ac yn adlewyrchu chwe parth ansawdd gofal iechyd; roedd y parthau hyn yn gyfwerth â 'rhagoriaeth' wrth ddarparu gwasanaethau. Soniodd MK am y timau yn dychwelyd i'w rolau craidd yn yr

wythnosau nesaf, gan gynyddu capasiti staff sydd ar gael i gefnogi cyflawni yn erbyn holl ymrwymiadau'r CTCI.

Thema Strategol 3: Cefnogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a gofal

Dechreuodd JB drwy nodi rôl sylweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu i leihau niwed a'u cefnogi. Roedd y CTCI yn tynnu sylw at hyn ac yn cynnwys nifer o ganlyniadau uchelgeisiol ond cyraeddadwy. Roedd yr her bresennol yn canolbwyntio ar ailffocysu'r tîm, ar ôl iddo gael ei adleoli'n llwyr yn ystod y pandemig, a sicrhau ffocws clir ar ddiogelwch cleifion. Byddai ôl-groniadau gofal wedi'i gynllunio ac amseroedd aros yn faes sylw allweddol.

Thema Strategol 4: Gwneud y defnydd gorau o ddigidol, data a thystiolaeth i wella iechyd y boblogaeth

Nododd IB swyddogaeth alluogi'r thema hon, yn ogystal â'r camau gweithredu penodol a nodwyd. Roedd y bwriad strategol yn canolbwyntio ar wneud y gorau o'r cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau digidol i nodi a rhannu tystiolaeth ac i ymgorffori meddwl digidol fel galluogwr dros amser.

Thema Strategol 5: Galluogi cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus

Pwysleisiodd NL bwysigrwydd hanfodol cael y capasiti a'r gallu cywir i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau'r CTCI. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r gweithlu cyfan, gyda sgiliau wedi'u nodi a'u defnyddio'n effeithiol. O safbwynt newid pobl, roedd y blaenoriaethau presennol yn ymwneud â throsglwyddo'r Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol a pharatoadau o ran cyflwyno'r Gyfarwyddiaeth newydd. Cyfeiriodd NL at rôl y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn yr agenda parodrwydd ar gyfer newid sefydliadol.

Diolchodd JW i'w holl gydweithwyr Gweithredol am eu crynodebau llawn gwybodaeth. Awgrymodd y dylid ystyried pwyntiau cyffredinol yn gyntaf, ac yna'r themâu penodol, gan wahodd HG i ailgydio yn ei rôl gydgysylltu.

- Gofynnodd DE sut roedd y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar gynnwys y CTCI. Nododd hefyd yr amserlen hirdymor yn erbyn rhai canlyniadau a oedd yn ymestyn y tu hwnt i dymor cynllun tair blynedd.
- Gofynnodd MM am eglurder ynghylch sut beth fyddai llwyddiant mewn perthynas ag iechyd y boblogaeth; holodd hefyd a oedd y ddogfen yn ddigon uchelgeisiol o ran nodi dychwelyd at lefelau cyn y pandemig mewn rhai meysydd.
- Soniodd SG am rôl ddeuol Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain ar rai materion a dylanwadu ar/cefnogi eraill. Cododd y mater o wella rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran dylanwadu ar eraill.

Nododd HG y cysylltiadau rhwng y cwestiynau gan DE ac MM. O'i safbwynt ef, roedd y pandemig wedi ysgogi ymateb gwasanaeth strategol lle'r oedd staff wedi dod ynghyd mwyfwy ac wedi gweithio gyda mwy o hyblygrwydd, gan ysgogi dull integredig ar draws y sefydliad; roedd hefyd wedi gwella dulliau ac atebion digidol. Cydnabu HG yr angen yn 2022/23 i gadw’r ymdeimlad o weithio integredig, wrth i staff ddychwelyd i’w cyfarwyddiaethau ac ailgydio yn eu rolau arferol.

Cefnogodd TC hyn a nododd y ffocws cryfach ar staff a llesiant, gan wneud y sefydliad yn fwy cadarn ac wedi'i baratoi'n well i ymateb i ddigwyddiadau a ragwelwyd a digwyddiadau nas rhagwelwyd; roedd y sefydliad wedi dod yn fwy hyblyg, ystwyth a chadarn. Cydnabu hefyd yr ymgysylltiad cryfach a mwy ystyrlon â phartneriaid strategol eraill yn y sector cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau lleol.

Mewn ymateb i bwynt SG am natur ddeuol rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, defnyddiodd MK sgrinio coluddion fel enghraifft; roedd cyflenwi effeithiol ar draws llwybrau cleifion yn dibynnu ar ddull system gyfan, gyda byrddau iechyd yn parhau i fod yn gyfrifol am rannau allweddol o’r llwybr, gan gynnwys amseroedd aros ar gyfer colonosgopi. Fodd bynnag, roedd cydweithio agosach yn ystod y pandemig yn argoeli’n dda ar gyfer cytundeb yn y dyfodol ar flaenoriaethau a rennir.

Nododd JW, gan fod y CTCI yn gynllun treigl tair blynedd, byddai canlyniadau gyda llinellau amser y tu hwnt i 2025 hefyd yn treiglo i'r cyfnodau cynllunio dilynol. Byddai'n bwysig gweithio'n ôl o'r pwyntiau terfyn disgwyliedig a chynnwys cerrig milltir mesuradwy.

Nododd JW y gwersi pwysig a ddysgwyd o'r ddwy flynedd diwethaf a chadarnhaodd y byddai cofnodion y cyfarfod yn nodi hyn. Gofynnodd i HG ac NJ gynnwys sylw ar arwyddocâd y gwersi ddysgwyd o Covid-19 yn y CTCI, ac i ystyried ymhellach sut y caiff llwyddiant ei lunio, o ran iechyd y boblogaeth a dychwelyd at lefelau gweithgarwch cyn y pandemig, lle bo hynny’n berthnasol.

**Camau gweithredu: HG/NJ**

Yna gofynnodd JW am gwestiynau neu sylwadau ar y themâu penodol.

O ran Thema Strategol 1, croesawodd MM yr ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; roedd hyn yn glir drwy'r CTCI cyfan. Gofynnodd am y penderfynyddion ehangach penodol yr oedd y CTCI yn ceisio mynd i'r afael â nhw a rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru. O ran cyrhaeddiad addysgol, er enghraifft, a oedd y rôl yn ymwneud mwy â darparu ymchwil i bartneriaid o ran yr hyn sy’n gweithio. Croesawodd MM hefyd y gydnabyddiaeth o bwysigrwydd partneriaethau strategol. Gofynnodd JW i HG/NJ adolygu'r geiriad o ran cyrhaeddiad addysgol a rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwil yn y maes hwn.

**Camau gweithredu: HG/NJ**

O ran Thema Strategol 2, cydnabu KE lefel yr uchelgais o ran taflwybrau adfer sgrinio; roedd y cerrig milltir yn nodi bod 2022/23 mewn gwirionedd yn flwyddyn drawsnewid ar gyfer sawl rhaglen, gyda gofyniad perfformiad a oedd yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch y mesurau olrhain sydd ar waith i alluogi'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i gymryd sicrwydd o ran cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mewn ymateb croesawodd MK y targedau uchelgeisiol a chadarnhaodd y ddarpariaeth ar gyfer olrhain misol; roedd cynnydd yn amodol ar yr ansicrwydd parhaus ynghylch Covid-19 a gofynnodd i'r Bwrdd nodi hynny.

Nododd JW, yng ngoleuni sylwadau KE, y dylai'r CTCI nodi'r datblygiadau a'r ffyrdd newydd o weithio a oedd yn gyfystyr â thrawsnewid rhai rhaglenni sgrinio.

**Camau gweithredu: HG/NJ**

O ran Thema Strategol 4, gwnaeth DE sylw ar yr angen i ganolbwyntio ar anghenion cleifion a'r cyhoedd wrth ddylunio cynhyrchion digidol.

Ni chododd Cyfarwyddwyr y Bwrdd unrhyw faterion mewn perthynas â Themâu Strategol 3 a 5; cadarnhaodd JW fod gan NJ nodyn o'r holl faterion a godwyd hyd yma, diolchodd i bawb am eu sylwadau ar y Themâu Strategol ac awgrymodd seibiant byr cyn symud ymlaen at y risgiau strategol a strategaeth y gyllideb.

Yna gohiriwyd cyfarfod y Bwrdd; ar ôl dychwelyd, aeth y cyfarfod ati i ystyried newidiadau arfaethedig i risgiau strategol.

<u>Risgiau Strategol</u>

Gwahoddodd JW RBW i gyflwyno'r adran hon, gan nodi y byddai'r Bwrdd yn ystyried papur manwl ar bwnc risgiau strategol yng nghyfarfod mis Mai 2022. Crynhodd RBW y trafodaethau ar lefel Weithredol a oedd yn sail i'r newidiadau arfaethedig a gofynnodd am unrhyw sylwadau.

- Croesawodd KE y newidiadau arfaethedig i'r derminoleg ynghylch disgrifyddion risg a gwnaeth sylw ar y goblygiadau ar gyfer ystyried y risgiau ar lefel Pwyllgor. Gofynnodd am y cyfleoedd i adolygu a diwygio'r risgiau, os oedd angen. Dywedodd RBW fod y dull o ymdrin â risg yn un dynamig ac y byddai'n adlewyrchu unrhyw newidiadau a nodwyd dros amser.
- Gofynnodd MM am esboniad i'r cyfeiriad geowleidyddol a gofynnodd sut y gallai hyn greu risg strategol o ran cyflawni'r CTCI. Dywedodd TC fod rhai materion eisoes yn dod i'r amlwg yn gysylltiedig â'r sefyllfa yn Wcráin, yn bennaf yn ymwneud ag ailsefydlu'r rhai a oedd wedi gadael y wlad. Nododd hefyd effeithiau taliadau tanwydd a phrisiau bwyd cynyddol ar dlodi ac ar benderfynyddion iechyd.
- Awgrymodd JW fod iechyd a llesiant staff yn rhan annatod o barodrwydd newid sefydliadol a gofynnodd am welliant i risg strategol 2.

**Camau gweithredu: RBW**

Strategaeth y Gyllideb

Yna gofynnodd JW i HG dywys y Bwrdd drwy Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2022/23. Tynnodd HG sylw at y canlynol:

- Y sefyllfa adennill costau a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.
- Yr ymagwedd optimistaidd a fabwysiadwyd ar gyfer 2022/23, yn gysylltiedig â'r codiad chwyddo cylchol o 2.8% yn y dyraniad gwaelodlin, cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfarniadau cyflog a chydnabyddiaeth o bwysau costau ychwanegol. Gwnaeth HG sylw am y llythyr diweddar gan Brif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd a chysur i Brif Weithredwyr ynghylch costau ynni uwch, pe baent yn dod yn broblem fawr.
- Cynnwys costau themâu a chamau gweithredu strategol y CTCI yn y ffigurau.
- Y penderfyniad i beidio â gofyn i'r Cyfarwyddiaethau nodi targedau arbedion ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23.
- Yr her gynyddol a gyflwynir gan flynyddoedd dau a thri o'r setliad tair blynedd. Byddai adolygiadau chwarterol a hanner blwyddyn yn cefnogi monitro amserol a pharhaus a phenderfyniadau ar ddyrannu adnoddau.
- Y pwysau cynyddol ar wariant Cyfalaf gyda chyfleoedd cyfyngedig i gael mynediad at fuddsoddiad cyfalaf y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd eisoes gyda Llywodraeth Cymru. Byddai cyfalaf yn ôl disgresiwn yn gostwng 24% yn 2022/23; gall hyn arwain at yr angen i flaenoriaethu. Roedd gwasanaethau microbioleg a sgrinio wedi elwa o gynnydd mewn buddsoddiad yn ystod y pandemig a byddai hyn, gobeithio, yn lleihau'r angen i fuddsoddi.
- Yr argymhelliad o gyllideb gytbwys a oedd yn cwmpasu pwysau costau ac yn adlewyrchu'r gallu i fuddsoddi mewn meysydd allweddol.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd JW i HG a'i dîm am yr holl waith caled a oedd yn sail i ddatblygu Strategaeth y Gyllideb; roedd y sefyllfa adennill costau ar ddiwedd 2021/22 yn gyflawniad sylweddol ynddo'i hun ac roedd hefyd o gymorth i ddechrau blwyddyn 2022/23 ar nodyn cadarnhaol.

- Croesawodd MM yr adroddiad a chydnabu rheolaeth effeithiol y sefyllfa ariannol gyffredinol. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch aliniad costau'r CTCI a strategaeth y gyllideb. Rhoddodd HG sicrwydd ar y pwynt hwn.
- Croesawodd DE yr adroddiad hefyd a diolchodd i'r tîm cyllid am y cynllunio ariannol oedd yn sail i strategaeth y gyllideb.

Wrth gloi'r drafodaeth, ategodd JW ei diolch i bawb a fu'n ymwneud â datblygu'r CTCI, sef carreg filltir arwyddocaol yn y broses o ailddechrau agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, ond heb anghofio bod y wlad yn parhau i fod yng nghanol pandemig byd-eang. Talodd JW deyrnged benodol i HG am ei arweinyddiaeth o'r broses gyfan ac i NJ am ei rôl yn drafftio'r CTCI i safon mor uchel. Byddai HG ac NJ yn cyhoeddi nodyn

ar unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i drafodaethau'r Bwrdd, ynghyd â chopi o'r fersiwn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill, 2022.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y CTCI a'r Cynllun Ariannol cysylltiedig a **chymerodd sicrwydd** o'r drafodaeth a'r dogfennau a ddarparwyd.

**PHW 7/2022.03.31 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**PHW 7.1/2022.03.31 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno ei hadroddiad, tynnodd TC sylw at y materion canlynol:

- Cyfranogiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr ymateb i sefyllfa'r Wcráin.
- Yr ymgynghoriad ar y Cylch Gorchwyl drafft i gefnogi Ymchwiliad Covid-19 y DU.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cadw'i le ar restr Stonewall o'r 100 Cyflogwr Gorau, yn codi o'r 100fed i 64ydd safle. Roedd y dyfarniad ychwanegol o statws Cyflogwr Aur yn gosod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 6ed yn y sector Gofal Iechyd ar draws y DU.
- Diweddariad ar yr adolygiad allanol o'r clwstwr TB yn Llwynhendy.

Gwahoddodd TC MK i roi rhagor o fanylion am sefyllfa'r Wcráin a'r adolygiad allanol.

Dywedodd MK fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi anghenion iechyd y ffoaduriaid hynny o Wcráin sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu strategol, gan gynnwys rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, a mwy o gymorth gweithredol, megis cynnig diweddariadau imiwneiddio a brechu.

O ran yr adolygiad allanol o'r clwstwr TB yn Llwynhendy, cytunwyd yn flaenorol ar y Cylch Gorchwyl, ond roedd ystod o ffactorau wedi effeithio ar argaeledd aelodau'r panel a'u gallu i ddechrau'r gwaith . Roedd y panel bellach yn ei le a dylai'r adolygiad ddod i ben yn ddiweddarach yn 2022.

Diolchodd JW i TC a MK a gwahoddodd gwestiynau neu sylwadau:

- Estynnodd KE ei llongyfarchiadau i bawb ar ennill statws Cyflogwr Aur Stonewall. Adleisiwyd hyn gan JW a diolchodd i JR am gefnogi'r gwaith hwn, gan nodi ffocws JR ar godi proffil yr agenda hon drwy gydol ei hamser ar y Bwrdd.

**Derbyniodd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymerodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau.

**PHW 7.2/2022.03.31 Diweddariad ar COVID-19 a Digwyddiadau Eraill**

Rhoddodd MK ddiweddariad ar sefyllfa COVID-19:

- Roedd y data presennol yn nodi bod lefel yr achosion yn wastad ond ychydig yn donnog, gyda niferoedd achosion dyddiol yn lleihau a'r duedd ar i lawr o'i hanterth.
- Roedd yn ymddangos bod yr amrywiolyn Omicron presennol yn fwy heintus ond nad oedd yn arwain at salwch difrifol sy'n galw am dderbyniad i'r ysbyty, yr oedd eu niferoedd yn parhau'n gymedrol, hyd yn oed ar ôl codi'r cyfyngiadau.
- Yr angen i greu cynlluniau ar gyfer gwyliadwriaeth yn y dyfodol yn absenoldeb profi eang o'r 1af Ebrill, oherwydd newidiadau yn y gallu i fonitro'r sefyllfa trwy brofion. Byddai mabwysiadu system gwyliadwriaeth sentinel a data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn helpu i fonitro tueddiadau dros amser. Byddai'r gwaith o brofi achosion symptomatig sy'n galw am dderbyniad i'r ysbyty yn parhau; roedd y bwriad tymor hwy yn canolbwyntio ar alinio gwyliadwriaeth yn ymwneud â COVID-19 â gwyliadwriaeth clefydau heintus arall.

O ran yr achosion o TB yn Llwynhendy, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gael darlun manylach o lwybrau trosglwyddo TB; roedd sgrinio ar gyfer TB cudd hefyd ar gael.

**Derbyniodd** y Bwrdd y diweddariad a **chymerodd sicrwydd** o'r drafodaeth.

**PHW 7.3/2022.03.31 Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 11)**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad, nododd HG y sefyllfa o ran Mis 11. O ystyried y craffu ar y sefyllfa ariannol yn gynharach yng nghyfarfod y Bwrdd, rhoddodd HG y brif wybodaeth; roedd gwybodaeth fanylach ar gael ym mhapurau'r Bwrdd. Yna gwahoddodd sylwadau ar bob un o'r adrannau allweddol.

- Gofynnodd JW am sicrwydd, wrth dendro am gwmnïau i gynnal arolwg, fod y fanyleb yn cynnwys gofyniad i roi cyfle i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg a BSL. Roedd ei chwestiwn yn deillio o gŵyn ynghylch y cyntaf a materion blaenorol yn ymwneud â'r olaf. Cadarnhaodd NL y bwriad i sicrhau'r ddarpariaeth hon: roedd cynllun gweithredu ar waith fel rhan o'r broses gaffael i adolygu a gwirio bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau gosodedig.

**Camau gweithredu: NL**

- Gofynnodd KE am ddiweddariad ar y digwyddiad Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a oedd yn dal ar agor, hyd at dair blynedd ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd. Dywedodd RBW fod hon yn sefyllfa gymhleth a bod angen asesiad offthalmoleg ar y rhai oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Nid oedd yr asesiadau a gynhaliwyd hyd yma wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o niwed ac roedd 11 asesiad eto i'w cwblhau; byddai'r rhain wedi'u cwblhau erbyn diwedd Mehefin 2022 a byddai RBW yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn unol â hynny.

**Camau gweithredu: RBW**

- Nododd HG, yn ogystal â chraffu ar y sefyllfa ariannol ar lefel Bwrdd, fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn craffu ar ddatganiadau monitro misol manwl pob corff iechyd; nid oedd datganiad mis 11 Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi codi unrhyw faterion sylweddol. Awgrymodd HG y dylid cynnwys gwybodaeth am y datganiadau misol yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a chroesawodd DE yr awgrym hwn.

**Camau gweithredu: HG**

**Nododd** y Bwrdd y wybodaeth a ddarparwyd a **chymerodd sicrwydd** o'r trafodaethau.

**PHW 7.4/2022.03.31 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Gwahoddodd JW Gadeiryddion y Pwyllgorau i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion allweddol yn eu hadroddiad cyfansawdd.

O ran y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella tynnodd KE sylw at y strategaeth sydd wedi'i hailffocysu ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau; nododd fod hyn yn cynnwys defnyddio system Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Civica i gasglu ac archwilio data perthnasol. Nododd KE y pwyntiau a wnaed gan SH mewn perthynas â chyfathrebu â phlant a phobl ifanc a byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystyried hyn fel rhan o'i ffocws newydd.

O ran y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl cadarnhaodd MM bod materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hadfer i agenda'r Pwyllgor fel eitem sefydlog. Byddai gwaith yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys materion diwylliannol yn ymwneud â staff yn codi pryderon, naill ai ar eu rhan eu hunain, neu oherwydd pethau yr oeddent wedi bod yn dyst iddynt.

Cadarnhaodd DE bod materion perthnasol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi cael sylw yn y cyfarfod, fel y gwnaeth SG mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

Talodd JW deyrnged i JR, Cyfarwyddwr Anweithredol, y daeth ei thymor i ben ar 31 Mawrth, 2022. Roedd JR wedi cyflawni ei rôl gyda rhagoriaeth, roedd bob amser wedi paratoi'n drylwyr ar gyfer cyfarfodydd, yn gofyn cwestiynau craff mewn ffordd adeiladol ac yn cynnal y cydbwysedd cywir rhwng craffu a chymorth. Bu JR yn ddiwyd yn cyflawni ei rôl fel aelod o'r Pwyllgor a chadeirydd ac roedd yn uchel ei pharch ar draws y sefydliad. Bu JR yn driw i egwyddorion Nolan a gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru bob amser a gwnaeth gyfraniad sylweddol i waith y Bwrdd. Ymunodd holl aelodau'r Bwrdd â JW i ddiolch i JR a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol

Daeth y cyfarfod i ben ar y pwynt hwn.

**PHW 8/2022.03.31 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Roedd cyfarfod nesaf y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mai 2022.

## PHW 9/2022.03.31 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Daeth y cyfarfod i ben am 14:43.